PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
DYFED-POWYS POLICE AND CRIME PANEL

Y Cynghorydd Alun Lloyd-Jones Y Cadeirydd
Panel Heddlu A Throseddu Dyfed-Powys
D/O Adran y Prif Weithredwr
Neuadd y Sir, Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 1JP.

Cllr. Alun Lloyd-Jones Chair
Dyfed Powys Police and Crime Panel
C/O Chief Executive's Department
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire, SA31 1JP

Dyddiad / Date: 7 Chwefror 2020

Mr Dafydd Llewelyn,
Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu,
Heddlu Dyfed-Powys,
Pencadlys yr Heddlu,
Llangynnwr,
Caerfyrddin.

Annwyl Gomisiynydd,

Ynghylch: Adolygiad o braesept arfaethedig yr heddlu ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-2021

Ysgrifennaf atoch er mwyn cadarnhau bod Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, yn unol â gofynion Atodlen 5 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, wedi adolygu eich cynnydd arfaethedig o 4.83% o ran y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol uchod yn ei gyfarfod ar 7 Chwefror 2020.

A fyddech cystal â derbyn y llythyr hwn fel adroddiad y Panel mewn perthynas â'r adolygiad hwnnw.

Fel y gwyddoch, yr oedd y Panel yn cefnogi'r praesept arfaethedig yn llwyr ac ni wnaed unrhyw argymhellion eraill o ganlyniad i'r adolygiad.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi, a'r swyddogion cyllid o'ch swyddfa a'r llu, am y wybodaeth gynhwysfawr a roddwyd yn y seminar ym mis Rhagfyr 2019, ac yng nghyfarfod y Panel heddiw.

Yn gywir

Alun Lloyd Jones (Cadeirydd y Panel)